Canllawiau Ymarfer Cogio (Cuckooing)

Canllaw o ran gweithio gydag oedolion sydd mewn perygl o fod yn destun cam-fanteisio - cogio

Fersiwn	Adolygiad	Dyddiad
Fersiwn drafft 1	Ar gyfer ymgynghoriad	16/05/2024
F2	Cytunwyd arno yn y Grŵp Polisi a Gweithdrefnau	16/09/2024
F2	Dyddiad Adolygu	20/09/2027

Mynegai

Pennod	**Rhif Tudalen:**
Cyflwyniad	3
Beth yw cogio (cuckooing)?	3
Llinellau Sirol	3
Pwy sydd mewn perygl o ddioddef cogio?	4
Arwyddion Cogio	4
Sut i fynd i'r afael â chogio	5
Diogelu	5
Mapio Ymateb Amlasiantaeth	6
Galluedd Meddyliol	6
Cyfarfod amlasiantaeth	6
Cyfranogiad yr Heddlu	7
Pan fydd dioddefwr cogio hefyd yn ddioddefwr caethwasiaeth fodern	7
Ymweliad cogio - Canllaw Atgoffa	8

Cyflwyniad
Pwrpas y canllawiau hyn yw helpu i adnabod a chefnogi dioddefwyr cogio (‘cuckooing’ yn Saesneg). Nod y canllawiau yw rhoi fframwaith amlasiantaeth i weithwyr rheng flaen i hwyluso gweithio’n effeithiol gydag oedolion sydd mewn perygl o gael eu cartref wedi’i feddiannu i werthu cyffuriau.

Dylid defnyddio’r canllawiau mewn ffordd sy’n cyflawni’r canlyniadau gorau i oedolion, gan barchu eu hannibyniaeth a’u dewis i fyw y bywyd a fynnont. Dylai’r ymyriadau fod yn gymesur ac yn canolbwyntio ar yr unigolyn, felly dylid penderfynu arnynt fesul achos.

Beth yw cogio (cuckooing)?

Mae ‘cogio’ yn achos lle mae pobl yn meddiannu cartref unigolyn ac yn defnyddio’r eiddo i hwyluso cam-fanteisio. Daw’r enw gan y gog, sy’n meddiannu nythod adar eraill.

Mae mathau gwahanol o gogio:
- Defnyddio’r eiddo i ddelio mewn cyffuriau, eu storio neu eu cymryd.
- Defnyddio’r eiddo ar gyfer camfanteisio’n rhywiol.
- Meddiannu’r eiddo fel rhywle i fyw.
- Meddiannu’r eiddo er mwyn cam-drin y tenant yn ariannol.

Y math mwyaf cyffredin o gogio yw pan fo delwyr cyffuriau’n meddiannu cartref rhywun ac yn ei ddefnyddio i storio neu ddosbarthu cyffuriau. Mae gangiau troseddol yn targedu pobl er mwyn defnyddio eu cartref i ddelio cyffuriau ynddo. Mae’n bosibl bod arian ac arfau’n cael eu cadw yn yr eiddo hefyd.

Yn aml mae’r unigolyn yn cael ei orfodi i ganiatáu i’w eiddo gael ei ddefnyddio fel hyn drwy gynnig cyffuriau “am ddim” iddo. Yna, mae’n bosibl y bydd yn cael ei orfodi i ddelio cyffuriau i dalu am y cyffuriau “am ddim”. Gelwir hyn yn gaethiwed dyled.

Gall aelodau’r gang neu ddelwyr gynnig rhywbeth arall heblaw cyffuriau i’r oedolyn hefyd, sydd o ddiddordeb iddo ef neu hi, fel perthynas, cyfeillgarwch, arian neu ddillad.
Yn raddol, bydd y ‘manteision’ yn lleihau ac yn dod i ben o bosibl, a bydd mwy a mwy o bobl yn mynd a dod o’r eiddo. Efallai bydd aelodau’r gang / delwyr cyffuriau’n bygwth yr oedolyn gyda geiriau neu’n gorfforol os bydd yn ceisio atal eu gweithgareddau troseddol. Byddant hefyd yn atal teulu / ffrindiau a gweithwyr cefnogi rhag mynd i’r cyfeiriad.

Os oes unrhyw bryderon am gamfanteisio ar blant, dylid eu cyfeirio ar unwaith at y Gwasanaethau Plant a’r Heddlu. Rhoi gwybod am Bryderon

Yn aml mae cogio’n rhan o weithgareddau Llinellau Sirol ehangach ac mae’n fath o gam-fanteisio troseddol. Mae’n debygol y bydd y sawl y mae ei gartref wedi cael ei feddiannu yn gyndyn o godi pryderon oherwydd bod arno ofn yr ôl-effaith neu drais.

Llinellau Sirol

Mae Llinellau Sirol yn derm a ddefnyddir i ddisgrifio gangiau a rhwydweithiau troseddol cyfundrefnol yn ymwneud â mewnforio cyffuriau anghyfreithlon i un neu fwy o ardaloedd mewnforio yn y DU, gan ddefnyddio llinellau ffôn symudol pwrpasol neu ffurf arall o “linell ddelio". Maent yn debygol o gamfanteisio ar blant ac oedolion i symud a chadw cyffuriau ac arian, a byddant yn aml yn gwneud hyn drwy roi pwysau ar bobl, codi ofn arnynt a

defnyddio trais (gan gynnwys trais rhywiol) ac arfau. (Y Swyddfa Gartref).

Mae gweithgarwch llinellau sirol a'r trais, y delio cyffuriau a'r camfanteisio cysylltiedig yn cael effaith enbyd ar bobl ifanc, oedolion diamddiffyn a chymunedau lleol.

Pwy sydd mewn perygl o ddioddef cogio?

Mae cam-fanteisio yn eang, gellir targedu oedolion yn unigol, neu gall fod yn gysylltiedig â gangiau sy'n rhan o linellau sirol sy'n targedu plant ac oedolion mewn troseddu cyfundrefnol.
Mae'r rhai sy'n cogio yn manteisio ar natur ddiamddiffyn pobl. Mae oedolion sy'n camddefnyddio cyffuriau neu alcohol, sydd ag iechyd meddwl gwael neu anableddau dysgu, yn arbennig o fregus, ond gall unrhyw un gael ei dargedu. Er enghraifft, pobl hŷn sy'n byw ar eu pennau eu hunain ac wedi'u hynysu'n gymdeithasol ac yn chwilio am gwmni neu bobl sy'n byw mewn tlodi. Mae plant ac oedolion yn dioddef camfanteisio ac yn cael eu defnyddio fel negeswyr cyffuriau.

Rhai o'r ffactorau sy'n cynyddu'r perygl o ddioddef cogio yw:
- Profiad blaenorol o gael eu hesgeuluso, cam-drin corfforol a/neu rywiol.
- Diffyg cartref diogel/sefydlog, yn awr neu yn y gorffennol (er enghraifft oherwydd trais domestig neu rieni'n camddefnyddio sylweddau, iechyd meddwl neu droseddu).
- Arwahanrwydd cymdeithasol neu anawsterau cymdeithasol.
- Diffyg sefydlogrwydd economaidd.
- Digartrefedd neu mewn llety anniogel.
- Cysylltiadau â phobl sy'n ymwneud â gangiau.
- Anabledd dysgu neu gorfforol.
- Anghenion iechyd meddwl neu gamddefnyddio sylweddau.
- Yn derbyn gofal (yn enwedig y rhai â hanes gofal nad yw'n ddi-dor).
- Gwaharddiad o addysg prif ffrwd, yn enwedig mynychu Uned Cyfeirio Disgyblion.

Arwyddion Cogio

Mae cogio'n digwydd yn bennaf mewn tai rhent neu dai cymdeithasol, ond gall ddigwydd yn rhywle arall hefyd.

Gall arwyddion bod eiddo wedi cael ei feddiannu gynnwys:
- Cynnydd yn nifer y bobl sy'n ymweld â'r eiddo drwy gydol y dydd a'r nos, yn aml dim ond am gyfnodau byr.
- Mwy o gerbydau y tu allan i'r eiddo yn cynnwys tacsis neu geir wedi'u llogi.
- Pobl o'r newydd yn aros yn yr eiddo gyda'r preswylydd arferol a bagiau o ddillad a/neu ddillad gwely ychwanegol yn yr eiddo.
- Y preswylydd yn symud allan neu'n cadw draw o'r eiddo am bod rhywun arall yn aros ynddo.
- Tystiolaeth o ddefnyddio cyffuriau megis hen chwistrelli, ffoil a cling ffilm yn yr eiddo ac o'i gwmpas a thystiolaeth o ddelio cyffuriau megis clorian a bagiau delio.
- Cynnydd mewn troseddau ac ymddygiad gwrthgymdeithasol, yn cynnwys beiciau pedal wedi cael eu dwyn yn cronni ac yn cael eu cadw yn yr eiddo.
- Mae'n bosibl y bydd dioddefwyr cogio yn datgysylltu oddi wrth wasanaethau cefnogi ac yn amharod i drafod beth sy'n digwydd yn yr eiddo pan godir y mater â nhw.
- Unigolion â llawer iawn o arian parod neu sawl ffôn symudol.
- Derbyn llawer iawn o negeseuon testun/galwadau ffôn.

- Gadael gofal heb unrhyw eglurhad.
- Amheuaeth o gamdriniaeth corfforol / anafiadau heb esboniad.
- Cario arfau.
- Newidiadau i les emosiynol.

Sut i fynd i'r afael â Chogio?

Gall cogio fod yn rhan o drosedd ehangach, mwy cyfundrefnol gyda chysylltiadau â cham-fanteisio troseddol, ond gall hefyd fod yn broblem fwy lleol, llai cyfundrefnol. Mae angen i'r ymateb iddo ganolbwyntio ar yr unigolyn a bodloni meini prawf diogelu yn unol â Gweithdrefnau Diogelu Cymru.

Dylid rhoi gwybod i Heddlu Gogledd Cymru **bob amser** am achosion o feddiannu cartrefi pobl ddiamddiffyn i werthu cyffuriau. Mewn argyfwng, ffoniwch 999.

Gallai adnabod patrymau a themâu mewn ardal fod yn arwydd o bryderon mwy eang a bod mwy o bobl mewn perygl oherwydd yr un troseddwyr, felly mae'n rhaid rhoi gwybod i'r heddlu fel y gallant gasglu gwybodaeth a chysylltu'r darnau at ei gilydd.

Mae ymateb amlasiantaethol yn allweddol i weithio i ymdrin â phryderon am gogio a chamfanteisio ac mae hyn yn debygol o gynnwys yr heddlu, gofal cymdeithasol (plant ac oedolion), yr awdurdod lleol, tai, gweithwyr iechyd, asiantaethau cefnogi camddefnyddio sylweddau, y sector gwirfoddol a darparwyr gofal. Mae'n hanfodol bod ymarferwyr yn nodi ffyrdd o darfu ar gam-fanteisio.

Mewn achosion pan fo perygl uniongyrchol i rywun, mae'n bosibl y bydd angen cymryd camau brys i'w cefnogi i symud i lety arall i'w cadw'n ddiogel.

Mae offer a grymoedd eraill y gellir eu defnyddio hefyd i atal y bobl sy'n camfanteisio ac i gadw'r tenant yn ddiogel. Yn yr achosion mwyaf eithafol, bydd yr awdurdod lleol a'r heddlu'n cydweithio i gael gorchmynion cau neu waharddebau ar eiddo sydd wedi cael eu meddiannu.

Mae'r Ddeddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddu a Phlismona (Adran 8) yn caniatáu gorchmynion cau i atal mynediad i eiddo (am hyd at dri mis). Gall gwaharddebau hefyd atal pobl rhag gallu mynd i mewn i eiddo. Mae torri gorchymyn cau yn drosedd a allai arwain at garcharu, sy'n golygu y gall yr heddlu arestio pobl ar unwaith mewn cartref sydd â gorchymyn cau arno.

Gellir defnyddio deddfwriaeth arall hefyd, megis Hysbysiadau Rhybudd Herwgydio Plant (CAWN) ar gyfer oedolion mewn rhai sefyllfaoedd, y Ddeddf Troseddau Difrifol (yn benodol Adran 34 (gwaharddebau gangiau)) yn ogystal â Deddf Caethwasiaeth Fodern 2015 (yn benodol Rhan 2, Gorchmynion Atal / Risg Caethwasiaeth a Masnachu).

Mae'n bosibl y bydd gan y rhai sy'n cyflawni cogio neu gamfanteisio anghenion cefnogi eu hunain megis iechyd meddwl neu gamddefnyddio sylweddau. Dylai asiantaethau ystyried a fyddai cynnig cefnogaeth neu asesiadau iddynt hwythau hefyd yn helpu i liniaru'r risgiau.

Diogelu

Pan fydd oedolyn yn bodloni'r meini prawf ar gyfer diogelu dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, a Gweithdrefnau Diogelu Cymru yn ymwneud ag unrhyw gategori o gamdriniaeth yn gysylltiedig â chogio, a bod arwyddion nad yw'r oedolyn yn gallu amddiffyn ei hun oherwydd ei anghenion gofal a chefnogaeth, dylid cyflwyno adroddiad diogelu i Wasanaethau Oedolion bob amser. I gyflwyno adroddiad diogelu ar gyfer oedolyn ag anghenion gofal a chefnogi, ewch i Rhoi Gwybod am Bryderon

Dylid gwneud atgyfeiriadau ar gyfer plant i'r Gwasanaethau Plant: Rhoi gwybod am bryder.

Mae'n bosibl y bydd plant sy'n cael eu gweld fel rhai sy'n cam-drin, hefyd yn ddioddefwyr eu hunain, felly mae'n hanfodol bod atgyfeiriad yn cael ei wneud i'r Gwasanaethau Plant pan fydd plentyn/plant yn rhan o'r achos.

Mapio Ymateb Amlasiantaeth

Pan ymddengys bod cartref oedolyn wedi cael ei feddiannu i werthu cyffuriau, dylai'r asiantaeth arweiniol (sef yr asiantaeth sy'n dechrau'r ymateb amlasiantaeth i'r achos) bennu pa asiantaethau ddylai fod yn rhan o'r achos mewn cyfarfodydd strategaeth. Dylai hyn fod yn seiliedig ar ba asiantaethau ddylai fod yn rhan o fodloni anghenion gofal a chefnogaeth yr unigolyn, neu sydd â gwybodaeth yn ymwneud â'r pryderon am gogio yn enwedig pan fydd mwy nag un oedolyn. Ni ddylai asiantaethau wrthod bod yn rhan o'r cyfarfod cynllunio oherwydd nad ydynt yn gweithio gyda'r unigolyn ar hyn o bryd. Gall unrhyw asiantaeth arwain y cyfarfodydd amlasiantaeth, nid dim ond y Gwasanaethau Cymdeithasol neu Heddlu Gogledd Cymru.

Fel arfer, yr asiantaeth arweiniol fydd yr un sydd â'r rhan fwyaf o wybodaeth am yr unigolyn a'i sefyllfa, yr ymgysylltiad mwyaf diweddar neu flaenorol, anghenion yr unigolyn a'r risgiau cysylltiedig. Mae disgwyl i asiantaethau flaenoriaethu eu presenoldeb mewn cyfarfodydd cynllunio amlasiantaeth pan fo hynny'n bosib. Pan na fydd asiantaethau'n gallu mynychu'r cyfarfodydd, disgwylir iddynt ddarparu'r wybodaeth berthnasol.

Wrth gynllunio cyfarfod gweithwyr proffesiynol, dylid ystyried pwy fyddai'r gweithiwr gorau i weithio gyda'r oedolyn/oedolion. Mae hyn yn arbennig o bwysig pan fydd mwy nag yn oedolyn yn rhan ohono.

Dylid rhoi gwybod i'r oedolyn/oedolion am y cyfarfod a dylid gofyn am eu safbwyntiau ymlaen llaw, a'u cofnodi fel rhan o'r cyfarfod amlasiantaeth. Dylid ystyried pa wybodaeth y gellir ei rhannu, yn enwedig pan fydd mwy nag un oedolyn, yn seiliedig ar y risgiau. Dylid cofnodi'r penderfyniadau a'r rhesymau am hyn yn glir. Os oes ansicrwydd, dylai'r asiantaeth arweiniol ystyried cael cyngor cyfreithiol o fewn eu hasiantaeth am ba wybodaeth y dylid ei rhannu.

Galluedd Meddyliol

Mae galluedd meddyliol dan Ddeddf Galluedd Meddyliol 2005 yn ffactor wrth gynllunio diogelu gydag, neu ar ran oedolion sydd mewn perygl o gogio. Dylid trafod galluedd meddyliol yr oedolyn o ran y pryderon penodol sy'n ymwneud â'r achos. Os oes amheuon am alluedd meddyliol yr unigolyn, yna dylid cynnal asesiad o alluedd meddyliol o ran y penderfyniad hwn.

Cyfarfod amlasiantaeth

Prif bwrpas y cyfarfod strategaeth yw cytuno ar gynllun i leihau'r perygl i'r unigolyn(unigolion) a'u sefyllfa. Er bod y perygl yn cael ei rannu ar sail amlasiantaeth,

mae'n bosibl y cytunir mai dim ond un asiantaeth fydd yn arwain. Dyma'r asiantaeth fydd â'r siawns orau, ym marn y grŵp, o leihau'r perygl i'r unigolyn(unigolion).

Pwrpas y cyfarfodydd amlasiantaeth dilynol fydd adolygu a yw'r cynllun yn gweithio i leihau'r perygl ac a oes angen newid y cynllun i roi cynnig ar ddull arall. Os oes gwybodaeth bod nifer o bobl wedi cael eu heffeithio gan gogio yn yr ardal, dylai'r cyfarfod hefyd fapio unrhyw themâu a phatrymau cyffredinol o ran y troseddwyr.

Dylai'r Cydlynydd Arweiniol fynychu'r cyfarfod, sydd â lefel briodol o awdurdod i gytuno ar gamau gweithredu ar ran ei asiantaeth a herio asiantaethau eraill yn briodol os nad ydynt yn cymryd rhan.

Mae'n bwysig cytuno ar amserlenni ar gyfer pob rhan o'r broses rhag i'r achos fynd ar gyfeiliorn. Bydd hyn yn wahanol ar gyfer pob achos, yn dibynnu ar amgylchiadau unigol.

Yn y cynllun cefnogi, dylid nodi'n glir beth yw'r camau y cytunwyd arnynt, pwy sy'n gyfrifol am eu rhoi ar waith, yr amserlenni a dyddiad y cyfarfod nesaf.
Mae anghytuno proffesiynol yn digwydd, a dylai'r gweithwyr proffesiynol geisio bob amser i ddatrys eu gwahaniaethau a rhoi anghenion yr oedolyn wrth wraidd y broses. Pan fydd anghytuno, dylid ceisio eu datrys fel yr amlinellir yng nghanllawiau ymarfer datrys anghydfodau proffesiynol Gogledd Cymru.

Y Cydlynydd Arweiniol sy'n gyfrifol am sicrhau bod nodiadau a chamau gweithredu'r cyfarfod yn cael eu hanfon yn brydlon at bawb sy'n bresennol yn y cyfarfod, a'r staff neu asiantaethau nad ydynt yn bresennol ond ble mae camau gweithredu wedi'u dynodi ar eu cyfer. Rhaid cytuno sut y bydd yr oedolyn(oedolion) sydd mewn perygl yn cael diweddariad am ganlyniad y cyfarfod.

Cyfranogiad yr Heddlu

Bydd y camau a gymerir gan yr heddlu yn benodol i'r achos a gallant gynnwys:

- Ymweliadau amlwg rheolaidd wedi'u cynllunio i'r cyfeiriad yn unol â'r raddfa risg, gan gyflwyno gwybodaeth pan fo angen.
- Cyswllt â chyfeiriadau cyfagos.
- Dynodi pwy sy'n berchen ar yr eiddo.
- Chwilio am gyfleoedd i weithio gyda'r perchennog / landlord / asiantaethau / tai / wardeniaid.
- Arolwg Atal Troseddau - goleuadau, Teledu cylch caeëdig, mynediad heb glo, pethau anniogel, larymau ac ati. Dylanwadu ar y landlordiaid / asiantaethau gosod tai i wneud gwaith atgyweirio cyn gynted â phosibl.
- Dynodi nodweddion diamddiffyn - dibyniaeth i gyffuriau / alcohol / iechyd meddwl / cam-fanteisio'n rhywiol ar blant / caethiwed dyledion (ydyn nhw mewn trafferthion ariannol, ôl-ddyledion rhent ac ati).
- Cyfeirio / atgyfeirio'n briodol at wasanaethau statudol, elusennau, y gwasanaeth prawf ac ati o ran unrhyw anghenion a ddynodwyd.
- Monitro ac adolygu'r raddfa risg yn seiliedig ar yr hyn sy'n digwydd / gwybodaeth / ymweliadau.

Pan fydd dioddefwr cogio hefyd yn ddioddefwr caethwasiaeth fodern

Os oes amheuaeth bod dioddefwr cogio hefyd yn ddioddefwr caethwasiaeth fodern, yna mae'n rhaid atgyfeirio at y Mecanwaith Atgyfeirio Cenedlaethol (NRM) yn unol â Deddf Caethwasiaeth Fodern 2015. Mae gan ymatebwyr cyntaf NRM gyfrifoldeb statudol i gynnig yr NRM i ddioddefwyr posibl caethwasiaeth fodern yn unol â gofyniad gorfodol i roi gwybod i'r Swyddfa Gartref os byddant yn dynodi oedolyn neu blentyn sy'n ddioddefwr posibl o gaethwasiaeth fodern a/neu masnachu mewn pobl. Yn lleol, mae Ymatebwyr Cyntaf NRM yn cynnwys Heddlu Gogledd Cymru a'r 6 awdurdod lleol. Os bydd oedolyn yn gwrthod cytuno i ymuno â'r NRM, mae'n dal yn orfodol i Ymatebwr Cyntaf NRM gyflwyno'r ffurflen ar-lein. Mae'r ffurflen ar-lein yn newid yn dibynnu os yw'r oedolyn wedi cydsynio ai peidio. Os nad yw'r oedolyn wedi cydsynio i ymuno â'r NRM, ni ddylid cynnwys manylion personol.

Ymweliad Cogio - Canllaw Atgoffa

Dioddefwr - Enw llawn, dyddiad geni ac ethnigrwydd

- Dull cyfathrebu (ffôn / e-bost / cyfryngau cymdeithasol).
- Preswylwyr eraill yn y cyfeiriad. (Pob preswylydd os yw'n Dŷ Amlfeddiannaeth)
- Nodweddion diamddiffyn - iechyd meddwl / corfforol, dibyniaethau (cyffuriau / alcohol). Nodwch y gefnogaeth sydd ar waith.
- Y cyffuriau a ddefnyddir, amlder, pryd y cawsant eu defnyddio ddiwethaf, faint.
- Perchennog car (Ystyriwch ddefnyddio ffurflen D751XA os yw wedi ei gofrestru fel defnyddiwr cyffuriau).
- Ffynhonnell y cyffuriau.
- Talu am y cyffuriau (arian parod / nwyddau / rhedwr / rhywiol ac ati).
- Dyled cyffuriau ar hyn o bryd.
- Gweithiwr Cymdeithasol / Swyddog Prawf.

Lleoliad - Cyfeiriad llawn a disgrifiad

- Gwiriadau gwybodaeth cyn ymweld (Heddlu / Partneriaid)
- Statws tŷ - eiddo preifat, Cymdeithas Tai, rhent preifat.
- Cynllun, diogelwch, cyflwr (tystiolaeth o ddefnyddio cyffuriau).

Y Sawl sy'n cael ei Amau - Trosedd / Dulliau

- Enw llawn, Dyddiad geni, Ethnigrwydd, Cyfeiriad. Lluniau o'r sawl sy'n cael ei amau.
- Ardal y mae'n tarddu ohoni.
- Llysenwau, disgrifiad llawn i gynnwys unrhyw nodweddion nodedig, dillad arferol.
- Dynodwyd llinell cyffuriau / aelod o gang.
- Cludiant a ddefnyddir (car wedi'i logi / rhwydwaith trenau / car preifat).
- Cyfathrebu - rhif cyffuriau a rhif personol. Ffyrdd eraill o gysylltu.
- Arfau.
- Dull cludo cyffuriau (bag / personol / plygiau).

Methodoleg

- Sut yr aethant at y dioddefwr (trydydd parti / y sawl sydd dan amheuaeth, o'i wirfodd).
- Cytundeb i ddefnyddio'r eiddo - hyd (dros nos, sawl gwaith).
- Gorfodaeth / cymhelliant a ddefnyddiwyd. Ymgais i atal defnyddio'r eiddo neu orfodi allan.
- Cyfathrebu â'r defnyddiwr wrth ddefnyddio'r eiddo - sut a'r geiriad a ddefnyddiwyd.
- Defnyddio'r cyfeiriad - storio / paratoi cyffuriau / cyflenwi / defnyddio rhedwyr.

Y Farchnad Gyffuriau

- Beth a gyflenwyd; Pris; Pecynnu
- Marchnad agored neu gaeedig; ardal.